

## **Ymateb i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal: Adroddiad y Pwyllgor Archwilio (3)**

Croesawaf y canfyddiadau yn yr adroddiad sy'n cydnabod y cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo gofal a sut y mae hyn yn dylanwadu ar natur ymateb y Llywodraeth.

Ceir 3 lefel o ymateb sy'n adlewyrchu'r materion strategol, polisi a phroses a nodwyd. Mae'r ymateb strategol i'w weld yn y broses o weithredu strategaethau cyffredinol allweddol megis *Cynllun Oes*, *Bywydau Bodlon*, *Cymunedau Cefnogol a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn*. Mae'r ymateb polisi manwl wedi'i wreiddio mewn ystod eang o feysydd polisi i sicrhau bod achosion amrywiol yr oedi yn cael eu trin yn briodol ar draws y system i gyd. Er enghraifft, mae sylw arbennig o ran polisi yn cael ei roi i ofal iechyd parhaus y GIG, comisiynu a chynllunio gwasanaeth, gweithio ar y cyd, rheoli cyflyrau cronig a datblygu'r gweithlu. Yn olaf, mae angen mynd i'r afael â materion sy'n benodol i oedi wrth drosglwyddo gofal, megis cytundebau lleol a dewis.

Mae fy ymateb i'r pedwar argymhelliad ar ddeg yn adlewyrchu dull gweithredu systemau cyfan sydd ei angen i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal a fabwysiadwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

Wrth ddatblygu'r ymateb hwn, rwyf hefyd wedi cadw mewn cof y canfyddiadau a'r argymhellion a geir yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a fu'n gweithio yn y tair cymuned sy'n perfformio waethaf yng Nghymru yn 2007, a'r Adolygiad Annibynnol a gynhaliwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ar sail Cymru gyfan a chyhoeddwyd yr adroddiad yn gynnar yn 2008.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o negeseuon allweddol yr Adolygiad Annibynnol sydd fel a ganlyn:

- Mae'r ffigurau pennawd yn cuddio amrywiad lleol sylweddol
- Caiff y duedd genedlaethol ei dylanwadu'n sylweddol gan y sefyllfa mewn nifer fach o ardaloedd, yn enwedig Caerdydd
- Ni cheir unrhyw newidyn na grŵp o newidion sy'n egluro lefel yr oedi wrth drosglwyddo gofal ar draws Cymru - mae ardaloedd lleol gwahanol yn wynebu rhesymau gwahanol dros yr oedi
- Mae'r fframwaith polisi yn glir yn gyffredinol, gyda chanllawiau cyfredol eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaethau yn y sector cyhoeddus gydweithio, ac mae dulliau eisoes yn bodoli ar lefel Cymru gyfan ar gyfer datblygu polisi cynhwysol.

Gwelodd yr Adolygiad mai goblygiad cyffredinol y canfyddiadau hyn yw bod sawl ffactor yn perthyn i achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a'u bod yn dibynnu ar y sefyllfa leol, ac ni cheir un ateb cyffredinol sy'n gallu cael effaith ar draws Cymru gyfan.

Gan ystyried y canfyddiadau hyn, yn ogystal â'r ymateb hwn i'r Pwyllgor Archwilio, bwriadaf gymryd camau byrdymor ychwanegol sydd wedi'u teilwra'n lleol ac sydd wedi'u hanelu at y cymunedau sy'n perfformio waethaf. Fy nod yw sicrhau bod y cymunedau hyn yn canolbwyntio'n ddigonol ar y maes hwn ac atgyfnerthu fy nisgwyliad y bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod trefniadau amserol mewn

grym i ddarparu gwasanaethau fel y bo angen ar gyfer pobl sydd, yn aml iawn, yn agored i niwed. Cyfeiriaf at y camau hyn yn fy ymateb.

### **Argymhelliad 1:**

**Mae angen gweledigaeth leol a chlr o'r modelau gwasanaeth a fydd yn hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn sy'n agored i niwed, gyda fframwaith addas i reoli o'r canol.**

**Dylai cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol ddod ynghyd i ddatblygu gweledigaeth glir o batrwm y gwasanaeth sy'n angenrheidiol i weithio'n llwyddiannus drwy'r system gyfan.**

**Rydym yn argymhell bod adolygiad arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad o'r strategaethau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cynigion yn ddigonol ac yn ddigon uchelgeisiol i fynd i'r afael â gwendidau yn y system a hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn sy'n agored i niwed. Dylai ymddiriedolaethau, y byrddau iechyd lleol a'r Cynghorau perthnasol ganfod yr anghenion cyffredin rhwng bwrdeistrefi a cheisio datblygu modelau gwasanaeth cyffredin pan fydd hynny'n addas, gyda nod penodol o ddatblygu gwasanaethau gofal canolraddol sy'n fwy rhesymol a chynaliadwy.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

#### Ymateb i'r Argymhelliad:

Bydd cyrff lleol eisoes wedi datblygu safbwyntiau cyffredinol ynghylch eu gwasanaethau drwy ddatblygu eu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'u hymatebion lleol i'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn. Mae gan gyrff lleol gyfrifoldeb statudol dros ddatblygu a gweithredu eu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Er nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn cymeradwyo'r dogfennau hyn, cânt eu hadolygu a byddant yn cael eu hasesu gan Swyddfeydd Rhanbarthol.

Mae'r cyfeiriad yn yr argymhelliad at weithio ar draws ffiniau sefydliadau wedi'i ddisodli'n rhannol gan y gwaith arfaethedig i ad-drefnu GIG Cymru, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Yn dilyn y broses ymgynghori, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad a chyrff lleol adolygu eu dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas â gwaith eu rhagflaenwyr a'i ddiweddarau os oes angen. Mae'n debygol, fodd bynnag, y bydd strwythurau arfaethedig newydd y GIG yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau gael eu cynllunio ar draws bwrdeistrefi gan ei bod yn debygol y bydd pob sefydliad yn ymwneud ag ardal ehangach.

Yn ogystal â Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ymdrinnir ag anghenion penodol pobl hŷn sy'n agored i niwed drwy bolisiau a strategaethau eraill:

- Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r

fframwaith hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaethau lleol fonitro cynnydd drwy broses hunanasesu. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi'n fuan hefyd.

- Cwblhawyd adolygiad o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn ddiweddar. Diweddarwyd y nodau i roi pwyslais ychwanegol ar hyrwyddo annibyniaeth. Dylai cynlluniau gweithredu lleol ystyried y rhain, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael adroddiadau ar gynnydd fel rhan o'r trefniadau ariannu. Mae'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Iechyd Cymru yn cynnal adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn dros y 18 mis nesaf hefyd.
- Bydd y gwaith presennol ar gyflyrau hirdymor (o dan y Fframwaith a'r Model Cyflyrau Cronig) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff lleol baratoi cynlluniau lleol. Bydd y rhain yn galluogi cyrff lleol i ganolbwyntio ar wella'r modd y caiff gwasanaethau integredig eu cyflwyno gan weithio ar draws rhwystrau sefydliadol, proffesiynol a daearyddol, er mwyn diwallu anghenion pobl â chyflyrau cronig. Bydd hyn yn cynnwys oedolion sy'n fwy agored i niwed ac sydd mewn perygl mawr o gael eu derbyn a'u haillderbyn i'r ysbyty. Bydd angen i gynlluniau ganolbwyntio ar integreiddio a chryfhau gwasanaethau cymunedol i sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo'n amserol o leoliadau aciwt i'r gymuned, a chyflwyno cymorth ailsefydlu a gwasanaethau priodol i gynnal annibyniaeth.

## ***Argymhelliad 2***

*O ran natur dameidiog gwasanaethau gofal canolraddol....*

**Argymhellwn y canlynol:**

- a. Dylai byrddau iechyd lleol gydweithio'n fwy effeithiol â meddygon teulu drwy'r system gyfan, a hynny i symleiddio llwybrau cleifion a sicrhau bod yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gynnal annibyniaeth pobl hŷn sy'n agored i niwed yn fwy eglur;**
- b. Pan na fydd meddygon teulu yn cyfeirio pobl at ofal canolraddol neu at wasanaethau eraill yn lle ysbytai, dylai'r byrddau iechyd lleol greu systemau i gydweithio â hwy er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r dewisiadau eraill sydd ar gael; a**
- c. dylai'r byrddau iechyd lleol hefyd geisio datblygu systemau newydd er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol gyda phartneriaid ynghylch pobl hŷn sy'n agored i niwed; er enghraifft, gallai'r byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru rannu gwybodaeth am bobl sydd wedi disgyn a'u cyfeirio at glinig.**

## ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad:

- a. Mae sicrhau bod meddygon teulu yn cydweithio'n fwy effeithiol o fewn y system gyfan yn galw am ymrwymiad ac arweiniad gan fyrddau iechyd lleol.**

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gofal canolraddol gynnig un pwynt mynediad sydd ar gael yn hawdd a phrosesau cyfeirio clir. Nodir cyfrifoldebau byrddau iechyd lleol o ran bodloni'r gofyniad hwn yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, a chaiff cynnydd ei fonitro bob 6 mis drwy adnodd hunanasesu. Caiff adroddiad blynyddol ei gyhoeddi'n fuan, a bydd y broses o ddatblygu canllawiau cliriach ar gomisiynu yn ystod y 6 mis nesaf yn cyfrannu at gynnydd yn y maes hwn hefyd. Yn ogystal, bydd rhagor o ganllawiau ar gynllunio integredig yn cael eu datblygu pan fydd y gwaith o ad-drefnu'r GIG wedi'i gadarnhau.

- b. Mae *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru – Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu* yn darparu dull gweithredu strwythuredig a systematig i gysoni anghenion lleol â gwell gwaith ym maes comisiynu a darparu gwasanaeth. Mae'n adeiladu ar ddatblygiadau hyd yma, ac yn nodi rôl arweiniol allweddol y Byrddau Iechyd Lleol wrth gydweithio â'r holl staff, gan gynnwys meddygon teulu ac ymarferwyr gofal sylfaenol eraill, er mwyn datblygu gofynion y model, er mwyn darparu gwasanaethau mwy integredig a llai tameidiog.
- c. Cefnogaf y gofyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol weithio i wella a datblygu'r ffyrdd y caiff gwybodaeth allweddol ei rhannu rhwng partneriaid. Mae *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn nodi ymrwymiad i ailedrych ar y Broses Asesu Unedig a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu ag asiantaethau partner. Yn ddiweddar, mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) wedi cwblhau gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi trefniadau effeithiol o ran rhyddhau a throsglwyddo cleifion - *Passing the Baton*. Caiff yr arweiniad hwn ei lansio ar 11 Mehefin, ac mae'n cynnwys canllawiau ar gyfathrebu rhwng asiantaethau.

### **Argymhelliad 3**

**Dylai Llywodraeth y Cynulliad drefnu ei harweiniad, ei chyllidebau, ei blaenoriaethau, ei mesurau perfformiad a'i chymhellion mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well â'i gweledigaeth ar gyfer y system gyfan. Yn benodol, dylai wella'r systemau mesur presennol gan nad ydynt yn gywir nac yn rhoi digon o bwyslais ar effeithiau oedi wrth drosglwyddo gofal.**

**Ynghyd â'r adroddiad hwn ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried casgliadau ei adolygiad annibynnol ar oedi wrth drosglwyddo gofal. Dylai ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n sicrhau bod y cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol drwyddynt draw yn atebol am berfformiad y system gyfan, ond bod y fframwaith hefyd yn rhoi digon o hyblygrwydd i bartneriaid ddatblygu targedau ar y cyd. Dylai'r fframwaith ei gwneud hi'n ofynnol i bartneriaid lleol ddatblygu targedau ar y cyd. Dylai'r fframwaith olygu bod partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn dod ynghyd i gytuno ar dargedau sengl ar gyfer trosglwyddo gofal, wedi'u mesur yn ôl diwrnodau gwelyau. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gytuno i bob targed lleol o'r fath.**

## ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

### Ymateb i'r Argymhelliad:

Cefnogir yr egwyddorion a amlinellir yn yr argymhelliad, ac mae *Cynllun Oes a Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* eisoes yn adlewyrchu'r angen i gysoni fframweithiau perfformiad a chyflwyno yn well. Gan weithio o fewn y trefniadau statudol presennol, cam cyntaf y broses hon yw datblygiad a rôl Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae chwe safle arddangos yn datblygu'r gwaith hwn ar hyn o bryd, a bydd camau pellach sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith cynnar hwn a chanlyniad y cynigion i ad-drefnu'r GIG sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

## ***Argymhelliad 4***

**Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu fframwaith sy'n fwy cydlynol, a fydd yn galluogi partneriaid lleol i ddod ynghyd i ddatblygu targedau er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a lleihau effaith negyddol oedi wrth drosglwyddo gofal. Dylai'r fframwaith hwn ddarparu'r mesurau ariannol sy'n hwyluso ac yn mesur effaith newid yn y gwasanaeth, a chymhellion clir i sefydliadau allu cydweithio o ddifrif.**

## ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

### Ymateb i'r Argymhelliad:

Mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Byrddau Gwasanaethau Lleol yw'r cam cyntaf yn y gwaith o ddatblygu targedau ar y cyd. Fel yn achos yr argymhelliad blaenorol, bydd y chwe safle datblygu yn rhoi gwybodaeth waelodlin ddefnyddiol am fanteision y dull gweithredu hwn, ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Yn gysylltiedig â'm bwriad i gymryd camau ychwanegol yn y cymunedau hynny sy'n perfformio'n wael yn y maes hwn a chyflwyno adroddiad ar y lefelau uchel o oedi, byddaf yn galw ar gymunedau i bennu targedau ar y cyd mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal, fel cam cyntaf tuag at gynllunio camau gweithredu ar y cyd i leihau oedi. Bydd proses i sicrhau gwaith craffu manwl mewn perthynas â chymunedau gweithredu a chynnydd yn cael ei chyflwyno hefyd.

Mae prosiect ymchwil newydd gael ei gomisiynu i werthuso effeithiolrwydd adnoddau grant sy'n cefnogi gwaith ar y cyd, a bydd yn archwilio'r cymhellion a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â threfniadau hyblygrwydd ffurfiol ac anffurfiol y ddeddf iechyd, gan gynnwys cyllidebau cyfun ffurfiol ac anffurfiol. Disgwylir i'r

gwaith hwn gael ei gwblhau yn yr hydref ac unwaith eto, bydd yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad grŵp strategol ar ofal hirdymor a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac mae'n cynnwys ystod o bartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Un agwedd ar gylch gorchwyl y grŵp hwn yw archwilio'r fframwaith ar gyfer sicrhau gwell cydweithio ac archwilio sut y mae'r gofynion ariannol a'r gofynion o ran perfformiad yn ategu'r nod hwnnw. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad erbyn diwedd 2008.

### ***Argymhelliad 5***

**Argymhellwn, tra dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol edrych yn llawn ar bosibilrwydd cyfuno cyllidebau er mwyn datblygu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty, dylai hyn gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol ynghyd â chydweithio'n well ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

#### Ymateb i'r Argymhelliad:

Cefnogir yr angen i ddatblygu modelau gwasanaeth a threfniadau cryfach ar gyfer gweithio ar y cyd, a gellir eu datblygu mewn sawl ffordd, gyda chyllidebau cyfunol yn un o blith nifer o opsiynau. Mae'r holl ddarpariaethau hyblygrwydd yn galluogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu modelau gwasanaeth newydd.

Yn benodol i gyllidebau cyfun, mae canllawiau *Creu'r Cysylltiadau* ar ddefnyddio trefniadau hyblygrwydd wedi'u datblygu. Hefyd, mae AGGCC wedi comisiynu *templedi partneriaeth Adran 33* fel adnodd i helpu pobl i ddatblygu cytundebau partneriaeth.

I gefnogi'r defnydd presennol a wneir o gyllidebau cyfun, rwyf wedi comisiynu dadansoddiad o'r Grant ar gyfer Cydweithio presennol, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau cyllidebau cyfun ffurfiol ac anffurfiol o dan drefniadau hyblygrwydd Adran 33 o'r Ddeddf Iechyd. Disgwylir adroddiad ar hyn yn yr hydref.

Efallai y bydd y gwaith arfaethedig i ad-drefnu GIG Cymru, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn effeithio ar drefniadau cyllidebau cyfun ffurfiol ac anffurfiol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen cymryd camau pellach ar yr adeg briodol.

## ***Argymhelliad 6***

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried a yw ei strwythur presennol yn galluogi dull digon cydlynol o ddatblygu'r system gyfan ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

#### Ymateb i'r Argymhelliad:

Bydd strwythur yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn dilyn yr ymgynghoriad presennol ar strwythurau'r GIG. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses hon.

## ***Argymhelliad 7***

### **Argymhellwn y canlynol:**

- a. Dylai Llywodraeth y Cynulliad orfodi sefydliadau partner lleol i roi'r gorau i ddefnyddio cytundebau lleol sy'n gohirio'r broses o ddechrau mesur hyd yr oedi wrth drosglwyddo gofal;**
- b. Dylai ymddiriedolaethau, byrddau iechyd lleol a Chynghorau ddechrau mesur hyd yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r dyddiad yr ystyrir bod claf yn barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty, a dylent ganolbwyntio ar y dyddiad rhyddhau disgwylidig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau addas ar gael er mwyn trosglwyddo'r gofal ar y dyddiad hwnnw neu'n agos ato; a**
- c. Dylai Llywodraeth y Cynulliad roi arweiniad ar yr amseroedd ymateb derbyniol er mwyn cynnal asesiadau a gwneud trefniadau.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad.***

#### Ymateb i'r Argymhelliad:

Er mwyn rheoli perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal yn effeithiol, mae'n ddoeth i ni gael un diffiniad cyson y cytunir arno'n genedlaethol. Bydd hyn yn golygu y gellir cymharu perfformiad yn gywir.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y bydd dileu'r defnydd o amserlenni y cytunwyd arnynt yn lleol o'r cyfrifiad yn golygu y gellir llunio cymariaethau tebyg am debyg ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu hanwybyddu at ddibenion y cyfrifiad a bod y broses o drosglwyddo'r claf i'r cam nesaf yn ei ofal yn dechrau ar y dyddiad y mae'r tîm amlddisgyblaethol o'r farn bod y claf yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf hwnnw.

Nodwyd y defnydd o ddyddiad rhyddhau disgwylidig yn un o Gylchlythyrau Iechyd Cymru yn 2005, a bydd yn cael ei ail-nodi mewn canllawiau wedi'u diweddarau er mwyn ategu'r cyfrifiad. At hynny, disgwylir i'r canllawiau arfer da *Passing the Baton* gael eu lansio ym mis Mehefin 2008. Mae'r rhain yn atgyfnerthu'r defnydd o ddyddiad rhyddhau disgwylidig fel ffactor i sicrhau bod

cleifion yn cael eu rhyddhau'n amserol ac yn effeithiol o'r ysbyty.

### ***Argymhelliad 8***

**Dylai partneriaid ddatblygu dulliau ar y cyd o fesur y canlyniadau i bobl hŷn sy'n agored i niwed. Dylai hynny fesur pa mor effeithiol yw modelau gwasanaeth newydd a gynlluniwyd i hyrwyddo annibyniaeth a mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal a'i effeithiau.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad:

Mae mesur canlyniadau yn fater cymhleth ac felly mae AGGCC yn cefnogi prosiect peilot i ddatblygu dull gweithredu wedi'i seilio ar ganlyniadau mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys datblygu nifer o adnoddau gan gynnwys fframwaith rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfres o fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â chanlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Mae'r prosiect wedi'i ganoli mewn un awdurdod lleol ac nid yw wedi'i gyfyngu i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Serch hynny, mae'n bosibl y gellir defnyddio'r hyn a ddysgir o'r prosiect i gyfrannu at y gwaith o gyflwyno'r argymhelliad hwn. Bydd casgliadau'r prosiect hwn ar gael erbyn diwedd 2008, a byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn.

### ***Argymhelliad 9***

**Mae angen arweiniad drwy'r system gyfan i wireddu'r weledigaeth. Argymhellwn fod Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG, y byrddau iechyd lleol a'r Cynghorau perthnasol mewn cymuned iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfarfod i gytuno ar gyfeiriad strategol clir, er mwyn mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal a'r rhesymau sylfaenol drosto.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad

Derbynnir yr angen i gael arweiniad a chyfeiriad strategol drwy'r system gyfan ym mhob cymuned iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'r camau gweithredu uniongyrchol y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad i'r ymateb hwn, byddaf yn atgyfnerthu'r gofyniad hwn i bob cymuned iechyd a gofal cymdeithasol ac yn ei gwneud yn ofynnol, ar lefel Prif Swyddog Gweithredol, i'r gwaith o fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal gael ei gyflawni fel blaenoriaeth weinidogol.

Yn ogystal ag atgyfnerthu cyfrifoldebau'n gyffredinol a'r angen i drin hwn fel maes blaenoriaeth, bydd camau uniongyrchol ychwanegol yn cael eu cymryd yn y cymunedau hynny sy'n methu'n gyson â gwella perfformiad yn y maes



allweddol hwn.

Mae'r dull gweithredu hwn yn briodol ac yn gymesur yn yr ystyr ei fod yn cydnabod bod yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru, a bydd yn helpu i lywio'r dull gweithredu angenrheidiol ym mhob cymuned.

Cydnabyddir bod yr angen i ddefnyddio gwybodaeth am yr oedi ar lefel weithredol ym mhob sefydliad er mwyn sbarduno gwelliant yn hanfodol.

### ***Argymhelliad 10***

**Nid yw'r prosesau comisiynu wedi'u datblygu'n ddigonol a rhaid sicrhau bod gan gymunedau iechyd a gofal cymdeithasol gapasiti priodol mewn amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth.**

**Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau presennol o ran comisiynu, argymhellwn y canlynol:**

**a. Dylai byrddau iechyd lleol a Chynghorau ddefnyddio canlyniadau gwaith diweddar ar gydgomisiynu lleoliadau i blant er mwyn gwneud gwaith yn y dyfodol ar gydgomisiynu gwasanaethau i bobl hŷn sy'n agored i niwed;**

**b. Dylai byrddau iechyd lleol a Chynghorau ddatblygu dulliau comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl hŷn sy'n agored i niwed, a hynny'n cynnwys cymhellion i ddarparwyr sicrhau bod pobl hŷn sy'n agored i niwed mor annibynnol â phosibl;**

**c. Dylai byrddau iechyd lleol a Chynghorau wneud llawer mwy i geisio rheoli'r farchnad gofal cartref, fel cynyddu eu pŵer prynu drwy gydweithredu wrth gomisiynu a gwella diogelwch refeniw cyflenwyr drwy ddatblygu statws darparwyr a ffafir;**

**d. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gael dull cyffredin o dalu am wasanaethau y tu allan i'r ysbyty. Dylai hyn alluogi comisiynwyr i ddatblygu trefniadau cadarnach hirdymor gyda darparwyr, hwyluso'r gwaith o gymharu a gwerthuso costau ac ansawdd gwasanaeth, a'i gwneud yn haws i gomisiynwyr lleol nodi a defnyddio arferion da; a**

**e. Dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi cyfleoedd i rannu arferion da wrth gomisiynu a datblygu capasiti comisiynwyr lleol.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad:

Cydnabyddir y gwendidau yn y prosesau comisiynu presennol, ac mae'r rhain yn cael eu trin drwy'r gwaith arfaethedig i ad-drefnu ac ailstrwythuro GIG Cymru, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd .

Mae *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau comisiynu statudol yn ddiweddarach eleni a fydd yn sicrhau gwelliannau i brosesau comisiynu gofal cymdeithasol.

Bydd yr adolygiad o'r broses Grant ar gyfer Cydweithio y cyfeiriwyd ato mewn

ymatebion cynharach i'r argymhellion yn rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o rannu arfer da.

### ***Argymhelliad 11***

**Dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol lunio strategaethau clir ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau o leoliadau sefydliadol aciwt i wasanaethau cymunedol a chartref. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried rhoi arian sefydlu ar gyfer camau o'r fath, gydag arian wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith o ailfodelu darpariaeth gwasanaeth heb beryglu diogelwch pobl hŷn sy'n agored i niwed.**

#### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

##### Ymateb i'r Argymhelliad:

Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008 yn nodi'r camau allweddol i wella'r gwaith o reoli cyflyrau cronig yn y gymuned ac yn darparu fframwaith a chynllun ar gyfer sicrhau bod newid mewn gwasanaethau ar draws y system gyfan yn digwydd ac yn cael ei fonitro.

Bydd cyllid pontio o £15miliwn yn cael ei neilltuo i gefnogi'r broses o gryfhau gwasanaethau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig yn y gymuned dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn cefnogi newidiadau i wasanaethau o fewn ymateb a ddatblygwyd yn lleol i fframwaith cenedlaethol gan gynnal uniondeb y gwasanaethau. Yn ogystal, mae symud at fodelau gofal newydd a mwy effeithiol ar gyfer pobl sy'n agored i newid yn un o gonglfeini rhaglen weithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae canllawiau'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynegi'n glir eu disgwyliadau i gymunedau lleol amlinellu sut y byddant yn rheoli'r newid hwn ar draws yr ystod lawn o wasanaethau perthnasol.

Bydd angen cyflwyno'r Model a'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig er mwyn gwireddu'r cyfleoedd a sicrhau y caiff gwasanaethau cymunedol eu cryfhau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu mewn sawl ffordd: -

- i) Cwblhawyd cynlluniau gweithredu lleol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Model a'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig ym mis Mai 2008, ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd
- ii) Bydd gwaith paratoi i ddadansoddi, mesur ac ymchwilio i anghenion yn y dyfodol yn cael ei wneud i lywio achosion busnes lleol ar gyfer cynigion grant ar gyfer 2009/10
- iii) Caiff cyllid ei ddarparu i gynorthwyo'r broses o weithredu'r model a'r fframwaith a chyflwyno adnoddau priodol i'w cyflawni. Mae hyn yn

cynnwys rhoi'r Model Haeniad Risg Rhagfynegi (PRISM) ar waith fesul cam a fydd yn helpu i haenu poblogaethau practisiau meddygon teulu yn erbyn y risg y byddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar frys a sicrhau bod camau ymyrryd priodol yn cael eu cymryd i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi a helpu i sefydlogi cyflyrau pobl.

- iv) Paratoi gofal ar sail tystiolaeth i gefnogi gwelliannau i wasanaeth a'r broses o drosglwyddo gofal i leoliadau cymunedol.

### ***Argymhelliad 12***

**Rhaid cryfhau'r prosesau ar hyd y llwybr cyfan fel bod y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion y claf.**

**Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu ei ganllawiau ar Asesu Unedig ac yn llunio dogfennaeth safonol newydd y gellir ei defnyddio drwy Gymru. Dylid cwtdogi'r ddogfennaeth y mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ei llenwi, a dylai Gofal Iechyd Parhaus fod yn rhan ganolog o'r broses asesu sengl. Dylai Llywodraeth y Cynulliad wella capasiti sefydliadau sy'n gofalu am bobl hŷn sy'n agored i niwed i rannu gwybodaeth am y bobl sy'n eu gofal.**

#### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

##### Ymateb i'r Argymhelliad:

Mewn partneriaeth â NLIAH, mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu elfennau penodol o'r Canllawiau ar y Broses Asesu Unedig a datblygu dull cynllunio wedi'i seilio ar ganlyniadau mewn perthynas â chomisiynu a darparu gwasanaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i asesu'r potensial ar gyfer dogfennau asesu arbenigol 'cenedlaethol'. Ar lefel genedlaethol, mae prosesau a systemau presennol eisoes yn cynnwys asesiad o Ofal Iechyd Parhaus y GIG ac mae angen gwneud rhagor o waith yn dilyn y broses ymgynghori gyfredol i gynnwys y dull gweithredu hwn mewn arfer craidd yn lleol. Bydd y fframwaith diwygiedig yn cael ei gyhoeddi'n fuan a'i ategu gan raglen hyfforddi. Cafwyd gwelliannau o fewn awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth am gleifion/defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen datblygu a gweithio ar wasanaethau iechyd ymhellach.

Yn ogystal, bydd y Broses Asesu Unedig yn cael ei hadolygu fel rhan o'r gwaith o weithredu *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Drwy hynny, caiff gallu sefydliadau i rannu gwybodaeth am unigolion ei wella. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i greu system asesu gyffredin symlach gan ddefnyddio'r agweddau gorau ar y Broses Asesu Unedig bresennol.

### ***Argymhelliad 13***

**Argymhellwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn llunio polisi dewis pendant, a hwnnw wedi'i ddatblygu drwy ymgynghori gyda chynrychiolwyr pobl**

**hŷn a'r sector gofal cartref. Dylid defnyddio'r polisi hwn wedyn drwy Gymru. Dylai fynnu'n benodol bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys teuluoedd a gofalwyr cyn gynted â phosibl wrth roi gofal i unigolyn, er mwyn cynllunio cam nesaf eu gofal a rhoi digon o amser i deuluoedd wneud dewis mor bwysig.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad:

Nododd y gwaith maes a gynhaliwyd yn gynharach bod y broses o weithredu'r canllawiau ar ddewis yn dameidiog. Felly mae swyddogion yn edrych ar opsiynau i atgyfnerthu gofynion y canllawiau.

Llywodraeth leol ac nid Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â chyfrifoldeb statudol dros gyflawni'r gofyniad hwn, ond bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi camau gweithredu i ddarparu mynediad gwell ac amserol i'r gofal sydd ei angen ar bobl sy'n agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu canllawiau sydd wedi'u diweddarau ymhellach fel y gall sefydliadau lleol fynd i'r afael â'r mater o ddewis yn effeithiol a, gan ddefnyddio cyfleoedd sydd ar gael trwy NLIAH a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, annog yr arfer o rannu a datblygu arfer gorau yn y maes hwn.

### ***Argymhelliad 14***

**Mae angen i sefydliadau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddatblygu eu gweithlu i greu diwylliant llai gwrth-risg.**

**Dylai'r ymddiriedolaethau a'r cynghorau roi addysg i'w staff ynghylch risgiau gofal sefydliadol diangen. Dylid adolygu llwybrau a pholisïau asesu a rhyddhau, er mwyn i staff deimlo'n ddigon hyderus i ystyried dewisiadau diogel sy'n osgoi derbyn pobl hŷn sy'n agored i niwed i leoliadau gofal aciwt neu ofal preswyl heb fod angen hynny.**

### ***Derbyniwyd yr argymhelliad***

Ymateb i'r Argymhelliad:

Mae *Cynllun Oes a Cymru'n Un* yn ymrwymo i wella'r gweithlu drwy ddarparu hyfforddiant priodol.

At hynny, mae nifer o fentrau'n cael eu datblygu i helpu i wella swyddogaethau asesu a hyder mewn canlyniadau sy'n herio ymddygiad gwrth-risg.

- Mae gwaith penodol yn mynd rhagddo mewn perthynas â gofynion y gweithlu i fodloni'r Fframwaith Cyflyrau Cronig a fydd yn cwmpasu anghenion pobl hŷn yn y gymuned.
- Mae NLIAH wedi cynhyrchu 'Passing the Baton' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef canllawiau arfer da ar gyfer cynllunio

prosesau rhyddhau effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Disgwylir i'r ddogfen hon gael ei lansio ar 11 Mehefin. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddatblygu llyfr gwaith a phhecyn hyfforddi/datblygu i ategu'r canllawiau, ac mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau achos ac aseiniadau'n seiliedig ar waith sy'n herio ymddygiad gwrth-risg.

- Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sef Rheoleiddiwr y DU ar gyfer nyrsys, wrthi'n datblygu canllawiau ar ofalu am bobl hŷn. Bydd y canllawiau hyn yn dylanwadu ar addysg cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru yn ogystal ag arfer nyrsys sy'n gofalu am bobl hŷn. Dechrau 2009 yw'r dyddiad cyhoeddi disgwylidiedig.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd defnyddio'r Broses Asesu Unedig a hyfforddiant ar y cyd ar lefel leol yn galluogi staff i archwilio opsiynau diogel sy'n golygu y gellir osgoi sefyllfaoedd lle caiff pobl hŷn sy'n agored i niwed eu derbyn i leoliadau gofal aciwt neu ofal preswyl yn ddiangen.
- Yng Nghymru, mae'r NLIAH wedi bod yn cynnal adolygiad o addysg nyrsys cymunedol er mwyn cyfrannu at y gofynion comisiynu ar gyfer nyrsys ardal a nyrsys cymunedol eraill ar gyfer 2008/09. Rwyf wedi cytuno y bydd darpariaeth addysg fwy hyblyg yn cael ei mabwysiadu o dipyn i beth gyda modiwlau penodol yn cael eu darparu i gefnogi gofal yn y gymuned. Rwyf wedi cytuno hefyd y dylid cynnal adolygiad ehangach o nyrsio cymunedol yn ystod 2008/09. Mae cynlluniau ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu datblygu gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.
- Mae NLIAH wedi sefydlu fforwm cenedlaethol ar ryddhau cleifion ar gyfer ymarferwyr, a hynny unwaith eto gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r fforwm hwn yn agored i bob ymarferydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd yn datblygu ffyrdd o wella llwybrau a rolau ym maes asesu a rhyddhau cleifion.
- O ran y gweithlu gofal cymdeithasol, mae Cyngor Gofal Cymru wrthi'n gweithio ar gynllun gweithredu i ddiwallu anghenion y gweithlu a nodir yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Bydd rhaglen waith ar ofal yn y cartref/hyrwyddo annibyniaeth a rhaglen arall ar y rhyngwyneb gofal cymdeithasol yn darparu llwybrau ychwanegol i wella'r gweithlu.